

WILLIAMS, WILLIAM ('Gwilym Twrog '; 1768 - 1836), bardd

Enw: William Williams
Ffugenw: Gwilym Twrog
Dyddiad geni: 1768
Dyddiad marw: 1836
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn ardal Maentwrog, Sir Feirionnydd, 22 Tachwedd 1768, a'i fedyddio yn eglwys Ffestiniog. Cyhoeddwyd lluo o englynion, cywyddau, awdlau, ac emynau o'i waith mewn cylchgronau - *Seren Gomer*, 1823-35, *Y Dysgedydd*, 1823-31, *Y Gwyllydydd*, 1824, *Tywysog Cymru*, 1832-3, *Y Gwladgarwr*, 1834-5. Bu'n fardd Cymdeithas Cymreigyddion Llanfair, Sir Feirionnydd (1823), a chymdeithas Maentwrog (1825). Enillodd dlws Cymdeithas Cymreigyddion Llundain yn 1834 am gywydd. Yr oedd yn byw yn Garth Gwyn, plwyf Maentwrog. Bu farw yn T Nant yn yr un plwyf, 11 Awst 1836, a chladdwyd ym mynwent capel y Bedyddwyr Albanaid, Ramoth, plwyf Llanfrothen, lle y buasai yn aelod.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

D. Williams, *Cofiant J. R. Jones, Ramoth yn cynnwys casgliad helaeth o'i lythyrau* (Caerfyrddin 1913), 542
cofrestri plwyfi Maentwrog a Ffestiniog

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361719](https://www.wikidata.org/wiki/Q28361719)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

